

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Grantiau Cyngor Cymuned a Thref

Trosolwg

Nod Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yw creu natur ar stepen drws pobl. Mae'n canolbwyntio ar ennyn diddordeb mewn cymunedau i wella natur yn y lleoedd ble mae pobl yn byw a gweithio ynddynt a chael mynediad at wasanaethau ynddynt. Dylai'r ariannu gael ei ddefnyddio i gyfrannu at o leiaf un o fesurau diymhongar Llywodraeth Cymru:

- plannu rhagor o flodau gwyllt.
- creu rhagor o gyfleoedd i dyfu bwyd cymunedol.
- plannu rhagor o goed lleol.
- creu coetiroedd dwys ac amrywiol yr un maint â chwrt tenis.
- creu cynefinoedd mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfnewidfeydd trafndiaeth.
- annog blodau gwyllt a gwella bioamrywiaeth drwy newid arferion torri glaswellt.
- creu gerddi synhwyrdd.
- lleihau'r defnydd o bladdwyr.

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd Cyngor Sir Powys, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (ble y bo'n briodol), yn cefnogi cynghorau cymuned a thref drwy ariannu prosiectau sy'n bodloni'r nodau hyn. Gallai'r grantiau hyn gefnogi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y cyngor a helpu i gyflawni eu gofynion statudol o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd 2016. Dylai unrhyw weithredu sy'n digwydd gael ei gynnwys yn eich adroddiad Adran 6 nesaf, sydd fod i ymddangos yn 2025. Caiff cynghorau cymuned a thref eu hannog i weithio tuag at ymgyrchoedd 'Iddyn Nhw' a 'Charu Gwenyn' Llywodraeth Cymru.

Iddyn Nhw / It's For Them

Ymgyrch Llywodraeth Cymru yw [Iddyn Nhw](#) sy'n annog lleihau torri glaswelltiroedd a gwella bioamrywiaeth. Wrth leihau pa mor aml mae glaswellt yn cael ei dorri caiff cynefin gwerthfawr a ffynonellau peillio i infertebratau eu creu. Yna, mae hyn yn hidlo i fyny'r gadwyn fwyd fel bod rhagor o fwyd i rywogaethau fel adar, ystumod a draenogod. Lleihau torri glaswellt mewn ardaloedd penodol i ddwy waith y flwyddyn (yn unol ag [arferion gorau Bywyd Planhigion](#)) yw'r ffordd orau o wella bioamrywiaeth. Gellir defnyddio'r manau canlynol i greu hafan i beillyddion: llain werdd ymyl y ffordd, safleoedd bws, toiledau, mynwentydd ac ardaloedd amwynder glaswelltir. Mae hyn yn helpu i gyfuno cynefinoedd ledled Powys i wella bioamrywiaeth ledled y tirlun. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu [pecyn offer adnoddau rhanddeiliaid](#) ar gyfer arwyddion y gall cynghorau eu haddasu i gynnwys eu logo eu hunain a manylion cyswllt. Gellir defnyddio hyn ar gyfer arwyddion i esbonio unrhyw newidiadau o ran rheoli.

Caru Gwenyn / Bee Friendly

Cynllun sy'n anelu at gefnogi'r holl beillyddion, gan gynnwys gwenyn yw [Caru Gwenyn](#). Gall cyngor cymuned neu dref gyflawni statws Caru Gwenyn drwy fodloni pedair thema:

1. Bwyd – darparu ffynonellau bwyd sy'n gyfeillgar i beillyddion.
2. Llety Pum Seren – darparu lleoedd i beillyddion fyw ynddynt.
3. Rhyddid rhag pladdwyr – osgoi cemegolion sy'n niweidio peillyddion.
4. Hwyl – cynnwys y gymuned i helpu peillyddion.

Caiff pob prosiect sy'n cael ei gefnogi gan yr ariannu hwn ei asesu ar gyfer statws Caru Gwenyn ar ôl ei gwblhau.

Meini Prawf Ariannu / Noddi

Gall holl gynghorau cymuned a thref Powys wneud cais am yr arian. Dylai'r ardaloedd gwyllt sy'n cael eu cynnig fod oddi fewn i drefi a phentrefi i gynyddu gwerth bioamrywiaeth ar stepen drws pobl.

Mae'r ariannu ar gyfer eitemau **cyfalaf** ac ni fydd yn cynnwys costau staff na rheolaeth yn y dyfodol. Dylai cynnal a chadw'r asedau gael eu cynnwys yn eich Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB). Dylai gwariant cyfalaf greu neu wella natur ar stepen drws pobl. Ymhlith enghreifftiau o'r costau mae:

- hadau neu fylbiau blodau gwyllt
- ardaloedd compost ar gyfer casglu toriadau glaswellt
- torri a chasglu peiriannau i reoli ardaloedd blodau gwyllt
- coed, gan gynnwys coed ffrwythau ar gyfer perllannau cymunedol
- gerddi tyfu bwyd cymunedol
- creu pyllau
- dehongli arwyddion e.e.. arwyddion Iddyn Nhw
- costau contractwyr i greu'r ardal bywyd gwyllt

Rydym yn eich annog i weithio mewn partneriaeth â chynghorau cymuned a thref yn eich ardal. Er enghraifft, gallai sawl cyngor wneud cais am beiriannau ac offer i reoli ardaloedd blodau gwyllt a fyddai'n cael eu rhannu rhwng cynghorau. Byddai gweithio mewn partneriaeth yn cryfhau eich cais.

Dylai rheolaeth barhaus yr ardaloedd ar gyfer bioamrywiaeth gael ei gynnwys yng nghynllun busnes y cyngor a'r CGB. Dylai adrannau perthnasol y cynllun rheoli hwn gael eu darparu ar ôl gorffen y grant i arddangos y bwriad i barhau i reoli'r bywyd gwyllt.

Maint y gronfa a graddfeydd amser

Caiff ceisiadau rhwng £500 a £5000 eu hystyried yn y rownd ariannu hwn. Os oes syniad gennych am brosiect fwy, cysylltwch â biodiversity@powys.gov.uk i drafod ymhellach achos efallai bydd nawdd arall ar gael.

Rhaid gwario'r arian o fewn i flwyddyn ariannol 2023/24. Gall hyn fod yn wariant paratoadol i newidiadau i arferion torri glaswellt yn 2024. Grant ad-daliad yw hwn, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth o wariant i dderbyn taliadau grant. Rhaid cyflwyno'r hawliad grant terfynol, gyda thystiolaeth o wariant, erbyn **8 Mawrth 2024**.



Bydd angen i chi anfon adroddiad aton ni i arddangos sut mae'r ariannu hwn wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd gwylt yn eich ardal, gan gynnwys ffotograffau cyn dechrau ac ar ôl gorffen.

Dyfarnu'r arian

Caiff ceisiadau eu hystyried ar gyfer ariannu ar sail y cyntaf i'r felin. Caiff pob cais ei adolygu gan banel o Gyngor Sir Powys, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (ble y bo'n briodol), ac Un Llais Cymru.

Ffurflen gais

1. Cyngor/Cynghorau cymuned neu dref	
2. Enw a manylion y person cyswllt (e.e., e-bost, ffôn).	
3. Soniwch wrthym am eich prosiect. Sut ydy hwn yn gweddu ymgyrch Iddyn Nhw? (Dim mwy na 4 paragraff) <i>A wnewch chi gynnwys amcangyfrif o arwynebedd y cynefin gaiff ei greu gan y prosiect a lleoliad y safle. Os yw'n bosibl, dangoswch leoliad(au) y prosiect ar fap gydag ychydig ffotograffau. A yw'r ardal yn llain werdd ymyl y ffordd, yn fynwent, yn amwynder glaswelltir ac ati?</i>	
4. Sut mae'r prosiect yn gweddu ymgyrchoedd Iddyn Nhw neu Caru Gwenyn? <i>Fyddwch chi'n dylunio arwyddion pwrpasol Iddyn Nhw gan ddefnyddio pecyn offer y rhanddeiliad? Faint o arwyddion Iddyn Nhw fyddwch chi'n eu gosod?</i> <i>At faint o'r 4 thema Caru Gwenyn fydd yr ariannu yn cyfrannu tuag ato?</i> <i>Defnyddiwch y Canllaw Gweithredu Caru Gwenyn am syniadau.</i>	<i>Caru Gwenyn:</i> <i>Bwyd:</i> <i>Llety pum seren:</i> <i>Yn rhydd o blaladdwyr:</i> <i>Hwyl:</i>



<p>5. Am faint o arian ydych chi'n gwneud cais amdano? Rhowch fanylion y costau ariannol i gynnwys unrhyw arian cyfatebol (nid yw arian cyfatebol yn hanfodol ar gyfer y grant).</p>	
<p>6. Sut fydd eich prosiect yn creu neu'n gwella natur ar stepen drws pobl? (fel a ddisgrifiwyd yn y trosolwg uchod)</p> <p><i>Gan gynnwys lleoliad eich prosiect, pwy fydd yn ei ddefnyddio, a sut fydd y gymuned yn elwa o'ch prosiect.</i></p>	
<p>7. Sut fyddwch chi'n cynnal yr ased yn y dyfodol? Rhaid cynnwys rheolaeth parhaus yr ased yn eich CGB a'r cynllun busnes a rhaid i unrhyw gostau parhaus gael eu cynnwys yn eich cyllideb blynyddol.</p>	
<p>8. Ydych chi'n hapus i ni gysylltu ynghylch cyfleoedd ariannu neu gymorth yn y dyfodol?</p>	Ydyn / Nac ydyn
<p>Llofnod</p>	
<p>Dyddiad</p>	

Anfonwch eich ffurflen gais wedi ei chwblhau ac unrhyw ffotograffau neu ddogfennau cefnogol i biodiversity@powys.gov.uk.

Nodwch efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi am fanylion pellach. Caiff yr holl wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y ffurflen hon ei thrin yn unol â [pholisi preifatrwydd](#) Cyngor Sir Powys. Caiff gwybodaeth ei defnyddio'n unig mewn cysylltiad â'r cyfle ariannu hwn er mwyn cysylltu â chi ynghylch eich cais. Caiff data ei gadw'n ddiogel oddi fewn i systemau Cyngor Sir Powys. Ni chaiff unrhyw ddata personol ei rannu â sefydliadau eraill. Os na chaiff eich cais ei dderbyn, yna bydd y sefydliad yn dileu eich data ar ôl 3 mis [neu ar ôl i chi dynnu eich caniatâd yn ôl]. Os ateboch chi 'ie' i gwestiwn 8, byddwn yn cadw eich cais ar ffeil am 12 mis at ddibenion datblygu prosiectau'r dyfodol a cheisiadau grant, ar ôl hynny [neu ar ôl i chi dynnu eich caniatâd yn ôl] caiff eich data ei ddileu.